## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## HYSBYSIAD O ORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (IARD BURROWS, AFAN WAY, ABERAFAN, PORT TALBOT SA12 6LL) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu'r darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella darnau o'r priffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r darn o briffordd, ac nid awdurdodir ei gau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 18 Mehefin 2024 o dan y cyfeirnod P2024/0339 ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Iard Burrows, Afan Way, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL) 2026 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw hawliau ymgymerwyr statudol ar gyfer unrhyw gyfarpar o dan y priffyrdd, ynddynt, arnynt, drostynt, ar eu hyd neu ar eu traws.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Port Talbot, Llawr 1af, Canolfan Siopa Aberafan, Port Talbot SA13 1PB, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2369551.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 12 Mehefin 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## NOTICE OF THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (BURROWS YARD, AFAN WAY, ABERAVON, PORT TALBOT SA12 6LL) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice, to provide the new lengths of highways described in Schedule 2 to this Notice and to improve the lengths of highways described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Neath Port Talbot County Borough Council on 18 June 2024 with reference P2024/0339 and described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Burrows Yard, Afan Way, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL) Order 2026 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

The Order makes provision for the preservation of rights of statutory undertakers for any apparatus under, in, on, over, along or across the highways.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Port Talbot Library, 1st floor, Aberafan Shopping Centre, Port Talbot SA13 1PB, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2369551.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 12 June 2026 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy ofyn amdano oddi wrth** trafnidiaeth.ygangenorchmynion@llyw.cymru.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by requesting it from** TransportOrdersBranch@gov.wales.

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gyda chyfanswm arwynebedd yn mesur 66 o fetrau sgwâr, wedi ei farcio â llinellau sebra a'i labelu'n "A" ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gyda chyfanswm arwynebedd yn mesur 27.5 o fetrau sgwâr, wedi ei farcio â llinellau sebra a'i labelu'n "B" ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 1

**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregular shaped length of highway located on Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, with a total area measuring 66 square metres, marked with zebra hatching and labelled "A" on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway located on the Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, with a total area measuring 27.5 square metres, marked with zebra hatching and labelled "B" on the deposited plan.

## ATODLEN 2

**Y darnau newydd o briffyrdd sydd i'w darparu**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, sy'n gyfagos i'r ochr fwyaf gogleddol o'r ardal a labelir yn "A" ac sy'n dechrau oddi yno, sy'n rhedeg i gyfeiriad y gogledd-orllewin i ddod i ben ger ei chyffordd ag Isaac's Place, sy'n mesur 75.5 o fetrau sgwâr, wedi ei farcio â dotwaith a'i labelu'n "C" ar y plan a adneuwyd.

2. Darn petryalog ei siâp o briffordd a leolir ar Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gyda'i ochr hiraf yn mesur 51 o fetrau a'i ochr letaf yn mesur 1.4 metr, wedi ei farcio â dotwaith a'i labelu'n "D" ar y plan a adneuwyd.

3. Darn petryalog ei siâp o briffordd a leolir ar Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gyda'i ochr hiraf yn mesur 40 metr a'i ochr letaf yn mesur 1.4 metr, wedi ei farcio â dotwaith a'i labelu'n "E" ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 2

**New lengths of highways to be provided**

1. An irregular shaped length of highway located on Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, adjacent to and starting from the most northern side of the area labelled "A", running in a north-westerly direction to end near its junction with Isaac's Place, measuring 75.5 square metres, marked with stipple and labelled "C" on the deposited plan.

2. A rectangular shaped length of highway located on Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, with its longest side measuring 51 metres, its widest side measuring 1.4 metres, marked with stipple and labelled "D" on the deposited plan.

3. A rectangular shaped length of highway located on Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, with its longest side measuring 40 metres, its widest side measuring 1.4 metres, marked with stipple and labelled "E" on the deposited plan.

4. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar Afan Way, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gyda'i ochr hiraf yn mesur 65.4 o fetrau, a'i ochr letaf yn mesur 10.6 metr, wedi ei farcio â dotwaith a'i labelu'n "F" ar y plan a adneuwyd.

4. An irregular shaped length of highway located on Afan Way, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, with its longest side measuring 65.4 metres, its widest side measuring 10.6 metres, marked with stipple and labelled "F" on the deposited plan.

## ATODLEN 3
## Y darnau o briffyrdd sydd i'w gwella

Gwaith o osod wyneb newydd ar y cerbytffyrdd a'r troedffyrdd presennol ar Afan Way a Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, gan ddechrau o ochr ddeheuol ffin y safle ar Afan Way, ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain tuag at ei chyffordd â Water Street, yna i gyfeiriad y gogledd wrth y gyffordd a pharhau i mewn i Water Street, gan orffen ar ochr ogledd-orllewinol yr ardal wedi ei labelu'n "A" ac wedi ei marcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, gyda chyfanswm arwynebedd yn mesur 2068 o fetrau sgwâr.

## SCHEDULE 3
## Lengths of highways to be improved

Resurfacing works of the existing carriageways and footways on Afan Way and Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, starting from the southern side of the site boundary on Afan Way, extending in a north-easterly direction towards its junction with Water Street, then in a northernly direction at the junction and continuing into Water Street, finishing in the north-western side of the area labelled "A" and marked with cross hatching on the deposited plan, with a total area measuring 2068 square metres.

## ATODLEN 4
## Y Datblygiad

Datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys siop fwyd (dosbarth defnydd A1) a siop goffi ar wahân gyda chyfleuster gyrru drwodd (dosbarth defnydd A3) ynghyd â mynediad cysylltiedig i Afan Way a Water Street, Aberafan, Port Talbot SA12 6LL, maes parcio a gwasanaethu, goleuadau allanol, tirlunio, draenio, a gwaith safle cysylltiedig arall.

## SCHEDULE 4
## The Development

Mixed use development comprising of a food store (use class A1) and a separate coffee shop with drive through facility (use class A3) together with associated access onto Afan Way and Water Street, Aberavon, Port Talbot SA12 6LL, car parking and servicing, external lighting, landscaping, drainage, and other associated site works.